**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 18 Ionawr 2021 am 2.00 pm**

**Yn bresennol:** W G Lewis (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| Seamus Brennan | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Rob Denman | Gwasanaeth Carcharau |
| Pat Dunmore | Cyngor ar Bopeth |
| Prif Is-swyddog Rob Evans | HMS Cambria |
| Arweinydd Sgwadron Phil. C Flower | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Grace Halfpenny | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Thomas Hall | Blesma |
| Paul Jones | STOMP |
| Christine Morrell | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Julian North | Help for Heroes |
| Adrian Rabey | Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig |
| Tom Sloan | Rygbi'r Gweilch |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| John Williams | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Victoria Williams | Cyn-filwyr GIG Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Dan Garnell | Cydlynydd Ardal Leol |
| David Price-Deer | Rheolwr Digwyddiadau Arbennig |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Alyx Baharie, Jackie Davies, Capt. Chris Evans, Louise Fleet, Natalie McCombe, Peter Neville, Finola Pickwell, Cllr Alyson Pugh a Sian Woodland

---

## 91 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

## 92 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 93 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Dywedodd Grace Halfpenny fod yr aelod newydd o staff, Yasmin Todd, wedi ymgymryd â'i rôl yn ddiweddar fel swyddog 'Cefnogi Plant mewn Ysgolion' dan brosiect ysgolion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac y byddai'n dod i'r cyfarfod nesaf i drafod ei rôl.

Byddai'n cyfarfod ag adran addysg Cyngor Abertawe cyn bo hir i drafod materion a phroblemau y gallai gynorthwyo gyda nhw.

Cynigiodd Tom Sloan ei gymorth i gynorthwyo'r swyddog newydd drwy gysylltiadau a rhwydweithiau sefydledig rygbi'r Gweilch yn yr ysgolion a'r gymuned.

Amlinellodd Grace Halfpenny ei bod hi a'i chydweithwyr swyddogion cyfamod y lluoedd arfog ledled Cymru yn cysylltu â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda'r nod o wella cyfathrebu ymhellach rhwng y cyrff hynny a chymuned y lluoedd arfog ledled Cymru. Y nod yw cynhyrchu gwefan newydd a chylchlythyr rheolaidd yn y dyfodol agos.

Nododd hefyd fod rhaglen gynhwysfawr i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfamod y lluoedd arfog yn cael ei datblygu a fyddai'n cael ei chyflwyno i ddechrau i staff rheng flaen y cyngor gyda'r bwriad o'i hehangu i'r gymuned ehangach.

Amlinellodd, yn dilyn sylwadau a wnaed gan Gydlynwyr y Lluoedd Arfog ledled Cymru yn ystod y pandemig, fod Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod anghenion cyn-filwyr yn cael eu hystyried mewn cefnogaeth genedlaethol ar gyfer rhaglenni atal hunanladdiad a chymorth tai.

## 94 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Dywedodd y Prif Is-swyddog Rob Evans (HMS Cambria) fod gweithgareddau wyneb yn wyneb a chyda milwyr wrth gefn wedi dod i ben oherwydd y cyfyngiadau symud diweddaraf, ond nododd fod Rob Govier a'i dîm yn parhau â'u gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu ar-lein lle bynnag y bo modd.

## 95 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.

Dywedodd Chris Morrell fod y bwrdd iechyd wedi cynnal ei banel lluoedd arfog cyntaf ym mis Tachwedd ers y cyfyngiadau symud cychwynnol.

Amlinellodd fod y bwrdd iechyd wedi cynnal gwasanaeth coffa Dydd y Cofio ar-lein i staff.

Manylwyd ar y datblygiadau cynnar sy'n ymwneud â'r gefnogaeth ar gyfer profedigaeth a rhaglen a chanolfan 'gofal ar ôl marwolaeth', caiff rhagor o wybodaeth ei rhannu pan fydd ar gael.

Nododd fod y bwrdd iechyd yn archwilio'r materion sy'n ymwneud â chyflawni statws y cyflogwr aur mewn perthynas â'r lluoedd arfog a'u bod wrthi'n ceisio ehangu eu

cysylltiadau â milwyr wrth gefn yn eu cyflogaeth a'r rheini sydd â chysylltiadau milwrol.

Amlinellodd fod y gwasanaeth aelodau artiffisial wrthi'n recriwtio staff a ddylai wella'r gwasanaeth i gleifion.

Amlinellodd Victoria Williams (GIG Cymru i Gyn-filwyr) fod y gwasanaeth yn parhau i fod yn brysur iawn gyda 33 o atgyfeiriadau yn ystod y 3 mis diwethaf; ymdrinnir â phob atgyfeiriad bellach ar-lein, sydd wedi helpu i gyflymu'r broses a chynorthwyo o ran ymgysylltu a defnyddio'r gwasanaeth.

Cyfeiriodd at y newidiadau staff sydd wedi digwydd yn ddiweddar yn y gwasanaeth.

**96 Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol.**

Amlinellodd Neil Tomlin, Cyfarwyddwr Ardal, De Lloegr a De Cymru, gefndir a hanes y gronfa i'r panel.

Dywedodd fod unrhyw un a oedd wedi gwasanaethu yn yr awyrlu brenhinol, waeth beth fo hyd y gwasanaeth, a'u partneriaid a'u teuluoedd yn gymwys i gael cymorth a chyngor.

Amlinellodd fod swm o £27m wedi'i wario yn 2020, yr oedd pob rhan ohono wedi'i godi drwy roddion. Roedd nifer y bobl a gafodd gymorth wedi codi i saith deg un mil y llynedd, i fyny o bum deg dau mil y flwyddyn flaenorol.

Amlinellodd y gwahanol fathau o gymorth lles, grantiau a chymorth sydd ar gael i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Cyfeiriodd at effaith y pandemig ar y gwasanaeth, ei ymdrechion i godi arian a'i allu i ddarparu rhai o'i wasanaethau.

Dywedodd amryw o aelodau'r panel y gallent gysylltu â'r gwasanaeth a chefnogi ymdrechion a gwaith y gronfa a dywedwyd hefyd y byddai sgyrsiau a deialog yn parhau y tu allan i'r cyfarfod, yn enwedig o ran y posibilrwydd o ddefnyddio cadlanciau, milwyr wrth gefn a chyn-filwyr mewn gweithgareddau ac ehangu'r cysylltiad â gwasanaethau cymorth y GIG.

Roedd llyfryn argraffedig y gronfa ‘a guide to our services’ wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r agenda.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael ar-lein yn https://www.rafbf.org/

**97 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

Hafal

Amlinellodd Stephen Sullivan mai dim ond 1 cais o Abertawe a gyflwynwyd yn ystod y gyfran ddiwethaf o geisiadau am gyllid yn ymwneud â chwmni budd cymunedol Garrison Farm.

Amlinellodd fod Hafal wedi llwyddo yn eu cais gyda'r rhaglen 'force for change' a fydd yn cynnwys elfen o gynhwysiant digidol i gyn-filwyr.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Siaradodd Phil Flower ynghylch y drafodaeth yn yr eitem flaenorol, ac amlinellodd y byddai lluoedd y cadetiaid yn yr ardal, sy'n parhau'n weithgar iawn ar-lein ar hyn o bryd, bob amser yn croesawu cyfranogaeth cyn-filwyr yn eu gweithgareddau. Gallai hyn fod yn fanteisiol i bob parti.

Gallai hyn gynnwys cymryd rhan ar-lein a phresenoldeb corfforol gwirioneddol yn y dyfodol pan gaiff y cyfyngiadau symud eu llacio.

Dywedodd fod 80fed pen-blwydd Cadlanciau Awyr y Llu Awyr Brenhinol yn 2020.

Amlinellodd y cynlluniau ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau a fyddai'n cynnwys, os byddai cyfyngiadau'r pandemig yn caniatáu, gystadleuaeth poster ysgolion, rali hen geir a beiciau modur, mochyn rhost, cinio tei du, awyrblymio, cystadleuaeth ciciau cosb yn un o gemau'r Elyrch a dringo Pen y Fan.

Nododd hefyd y byddai gorymdaith a gwasanaeth eglwys rhithwir yn cael eu cynnal ar 7 Chwefror ac y byddai'n dosbarthu manylion i unrhyw un a oedd yn dymuno cymryd rhan.

Blesma

Amlinellodd Thomas Hall fod ei sefydliad yn parhau i weithredu drwy'r pandemig, ar-lein yn bennaf, ond gydag ymweliadau corfforol gwirioneddol â phobl os oes angen.

Amlinellodd faterion a amlygwyd iddo yn ymwneud â thaliadau tanwydd y gaeaf a bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn cael problemau gyda system gyfrifiadurol newydd, a oedd wedi arwain at dynnu rhai pobl oddi ar y rhestr ar gam, gan olygu nad oeddent wedi derbyn eu taliadau.

Cyfeiriodd hefyd at broblem yr oedd cleient wedi bod yn ei chael gyda Chyngor ar Bopeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Amlinellodd Pat Dunmore (Cyngor ar Bopeth) y gweithdrefnau gweithio cyfredol o ganlyniad i COVID-19 yn Abertawe/Castell-nedd Port Talbot a dywedodd y dylai fod yn debyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**Cadeirydd**